# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd Rhys Goode** **Ward: Nant-y-moel**

**Plaid: Llafur Cydweithredol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn **2024/25**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Nant-y-moel** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:

**Gweithgareddau Etholaethol**

Mae fy mhrif waith yn yr etholaeth y tu hwnt i gymryd pryderon gan drigolion a gwneud sylwadau i'r cyrff perthnasol wedi bod yn fy rôl barhaus fel Cadeirydd y Ganolfan Goffa Gymunedol. Rwyf wedi parhau i gefnogi gwaith sawl sefydliad yn y ward megis Côr Meibion Ogwr a Chymdeithas Hanes Cwm Ogwr.

Fe wnes i hefyd barhau i chwarae fy rhan wrth drefnu'r gwasanaeth coffa blynyddol ym mis Tachwedd a byddaf yn parhau i wneud hynny.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n parhau i weithio gyda swyddogion BCBC, Cyngor Cymuned Cwm Ogwr ac eraill i wella cyflwr ac amwynderau cae chwarae Planca.

**Y Cynghorydd Rhys Goode** **Dyddiad:**07/07/25